EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020

Rhif 83 – Unawd Cerdd Dant Bl 7, 8 a 9
'Jîns' – Meirion Macintyre Huws
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn

JÎNS

Ta waeth os wyf yn y tŷ
neu allan, os yw'n t'wyllu
neu'n wawr, os ydyw hi'n wynt
neu'n niwl yn llawn o helynt,
o'm mewn i y mae hi'n haf –
y mae denim amdanaf!

Yn fy *Levis* aflafar
wyf innau a'm sgwyddau'n sgwar.
Yn y dref rwy'n llenwi'r stryd,
yr wyf yn arwr hefyd!
yn rafin ac yn rêfiwr,
yn deyrn ac yn drwbadŵr.

Yn y pâr glas perygl wyf!
Hyder ar ddwy goes ydwyf!
yn cŵl, ac yn foi caled,
yn reiat croch, yn strît cred.
Na, nid wyf yn ofni dim –
amdanaf y mae denim!